



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

**Tîm Iechyd Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg**  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Yr 2ail Lawr, Parc Iechyd Prifysgol Keir Hardie  
Heol Aberdâr, Merthyr Tudful CF48 1BZ

**Cwm Taf Morgannwg Public Health Team**  
Public Health Wales  
2<sup>nd</sup> Floor, Keir Hardie University Health Park  
Aberdare Road, Merthyr Tydfil, CF48 1BZ

Ffôn / Ffôn: 01685 351440 Ffacs / Ffacs: 01685 351432

Annwyl Rhieni/Gwarchodwyr,

**Parthed: Gwisgo gorchuddion wyneb mewn ysgolion uwchradd**

Ysgrifennom atoch chi o'r blaen ynghylch ailgyflwyno gorchuddion wyneb fel mesur diogelwch ychwanegol ym mhob ysgol uwchradd.

Cytunwyd y byddai'r mesur hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn ystyried yr ymdrech i frechu'r rheiny rhwng 12 a 15 oed ac chyfradd trosglwyddo COVID19 yn y gymuned. Cafodd adolygiad ei gynnal ar 17 Tachwedd gyda chynrychiolwyr o adran addysg y tri awdurdod lleol. Wrth adolygu'r mesur hwn, nodwyd bod cyfraddau trosglwyddo yn parhau i fod yn uchel yn y band oedran 10-19 oed.

Daethpwyd i'r casgliad, felly, y **dylid parhau i ddefnyddio gorchuddion wyneb ym mhob ysgol uwchradd yn CTM**. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu eto ddydd Mercher 1<sup>af</sup> Rhagfyr 2021, gan ystyried trefniadau yn dilyn gwyliau'r Nadolig.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi eto am eich cymorth parhaus i roi'r mesurau rheoli hyn ar waith. Mae gwisgo gorchuddion wyneb, cael profion dyfeisiau llif unffordd a diheintio dwylo'n rheolaidd, yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n hymdrechion i atal y feirws rhag lledaenu.

Yr eiddoch yn gywir,

*Angela Jones*

Angela Jones

**Cadeirydd Tîm Rheoli Digwyddiadau Rhanbarthol Covid-19**

**Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg;**

Copi Arweinwyr, Aelodau a Phrif Weithredwyr Cynghorau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf